Medi – Rhifyn Penawdau

Dyma fersiwn **'Penawdau Newyddion'** cylchlythyr misol *Bay of Life Watch,* sy'n cael ei gyhoeddi gan Swansea Bay Futures**.** Mae'r **fersiwn llawn** i'w gael ar **http://www.abayoflife.com/en/bay-of-life-watch-newsletter/**

Er mwyn ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu i dderbyn y fersiwn llawn o'r cylchlythyr hwn yn rhad ac am ddim, sy'n crynhoi'r holl bethau diddorol sy'n digwydd yn eich ardal at ei gilydd, anfonwch neges e-bost at **Ruth.Dockerty@swansea.gov.uk**

Noddwyd gan…

Busnes ac Addysg

Enfis yn ennill cytundeb Tsieina

Mae cwmni technoleg golau Enfis Group wedi ennill contract i gyflenwi casgliadau a gyrwyr LED ar gyfer Stadiwm NBA yn Guangzhou, Tsieina, ar gyfer Gemau Asia ym mis Tachwedd. http://www.abayoflife.com/en/news/enfis-wins-chinese-contract/

Cawr Disgownt i agor ym Mharc Tawe, Abertawe

Bydd y gadwyn archfarchnad disgownt Home Bargains yn agor ei changen ddiweddaraf ym Mharc Tawe, Abertawe, ar ddydd Sadwrn,11 Medi, gan gymryd trosodd uned 7,000 troedfedd sgwâr yn hen siop Rosebys.

http://www.abayoflife.com/en/news/discount-giant-to-open-in-swanseas-parc-tawe/

Harris Pye yn edrych i'r gorllewin wrth i'w helw gynyddu 86 y cant

Mae Harris Pye, y grŵp peirianneg forol, yn llygadu'r twf yn Nociau Abertawe ar ôl cynnydd sydyn mewn elw a throsiant. Hyd yn hyn eleni, mae chwe llong, llong fordaith, fferi, tair llong garthu, a'r llong cargo Visten wedi bod yn nociau sych Abertawe, a disgwylir mwy yn fuan.

http://www.abayoflife.com/en/news/harris-pye-looks-west-as-profits-grow-86-per-cent/

Yamgo yn y ffrâm i dderbyn prif wobr diwydiant symudol

Cydnabuwyd Yamgo, y rhwydwaith darparu cynnwys symudol byd-eang, am eu teledu llinol arloesol a'u technoleg fideo dal i fyny gydag enwebiad am y "Teclyn neu Ddatrysiad Fideo Symudol Gorau" y Gwobrau Dewis Darllenwyr Cyfrwng Ffrydio Ewropeaidd.

http://www.abayoflife.com/en/news/yamgo-in-the-frame-for-top-mobile-industry-award/

Y Cynulliad yn cynnig am welliannau gwerth £7.5m ar gyfer trenau

Cyhoeddwyd cynllun gwerth £7.5m ar gyfer uwchraddio'r trenau ar wasanaeth prif linell trenau Arriva Cymru. Disgwylir cwblhau'r holl brosiect erbyn haf 2012.

http://www.abayoflife.com/en/news/assembly-in-75m-train-upgrade-bid/

Cwmnïau'n uno i greu 100 o swyddi peirianneg ar gyfer y ddinas

Mae oddeutu 100 o swyddi peirianneg ar fin gael eu creu gan gwmni Unit Engineers and Constructors Ltd o Abertawe sydd wedi prynu Birwelco Ltd, arweinydd y diwydiant. Bydd y mwyafrif o'r swyddi crefftus yng nghanolfannau'r uned oddi ar Ffordd Fabian yn Abertawe ac yn Noc Penfro.

http://www.abayoflife.com/en/news/firms-combine-to-create-100-engineering-jobs-for-city/

Cwmni cynhyrchu o Sir Gaerfyrddin yn cryfhau ei safle ar y brig

Mae Morgan GRP wedi cryfhau eu safle fel un o wneuthurwyr pennaf strwythurau polymer a atgyfnerthwyd â gwydr a chynhyrchion dur drwy brynu eu gwrthwynebwyr Envico Engineering o Abertawe, mewn dêl a fydd yn helpu sicrhau 64 swydd ar safle Envico yn Llansamlet a Baglan.

http://www.abayoflife.com/en/news/carmarthenshire-manufacturing-firm-strengthens-its-position-at-the-top/

Corus yn buddsoddi 185m mewn ffwrnais chwyth ym Mhort Talbot

Mae £185m i'w fuddsoddi mewn ailadeiladu hen ffwrnais chwyth yng ngwaith dur Corus, Port Talbot, a welwyd fel "cam mawr" tuag at lleoli'r gwaith fel cynhyrchydd cynhyrchion stribed o safon uchel ar "raddfa fyd-eang". Bydd yr ailadeiladu'n dechrau ym mis Gorffennaf 2012.

http://www.abayoflife.com/en/news/185m-corus-investment-at-port-talbot-blast-furnace/

… ac yn derbyn 150 o hyfforddeion newydd

Bydd y cawr dur Corus yn cael 150 o staff newydd. Mae'r cwmni, sydd eisoes yn cyflogi 3,500 o bobl yn eu gweithfeydd ym Mhort Talbot, yn cyflogi 80 o brentisiaid ac oddeutu 70 o raddedigion a hyfforddeion gweithredol fel rhan o'u rhaglen datblygu doniau yn yr hydref. <http://www.abayoflife.com/en/news/talent-pipeline-is-foundation-of-our-future-steel-firm-corus-takes-on-150-new-trainees/>

Cynulliad Cymru yn rhoi £3m i sicrhau dyfodol Crown Food Europe

Mae cwmni Crown Food Europe, a leolir yng Nghastell-nedd, wedi derbyn grant gwerth £3 miliwn i'w fuddsoddi yn ei gynnyrch. Mae'r cwmni'n arbenigo mewn cynhyrchu cydrannau cloriau ar gyfer caniau bwyd ac yn cyflogi oddeutu 300 o bobl.

http://www.abayoflife.com/en/news/welsh-assembly-awards-3m-to-secure-future-of-crown-food-europe-neath/

Cynhyrchwyr Bae Abertawe'n disgleirio yng Ngwobrau Blas ar Fwyd

Derbyniodd Cig Oen Cors Hallt Bro Gŵyr prif wobr tair seren yn y Gwobrau Blas ar Fwyd. Roedd yr enillwyr lleol eraill yn cynnwys Bragdy Hurns, La Crème Patisserie, Albert Rees Cyf, Siop Fferm a Gridyll Cwmcerrig a chynnyrch llaeth gafr Lovespoon.

http://www.abayoflife.com/en/news/swansea-bay-producers-star-at-great-taste-awards/

Seidr Afal Taffi'n taro deg yn Nenmarc

Mae Denmarc yn troi ei sylw at seidr Cymru gyda seidr Taffi Afal cwmni bragu Hurns yn taro deg gydag yfwyr yn Nenmarc, ac mae'r allforiant yn tyfu'n gyflym. http://www.abayoflife.com/en/news/taffy-apples-cider-is-a-hit-in-denmark/

Bragwr yn codi ei wydr i'r peint gorau yng Nghymru

Evan-Evans, sy'n cael ei redeg o'r pencadlys yn Llandeilo, oedd y cynhyrchydd o'r radd uchaf yng Nghymru yng ngwobr Cwrw Chwerw gorau a redwyd gan ŴYl Gwrw Prydain Fawr yn Earls Court, Llundain. <http://www.abayoflife.com/en/news/brewer-raises-a-glass-to-best-pint-in-wales/>

Teuluoedd Sir Gaerfyrddin yn cael help i ddringo'r ysgol eiddo

Mae Gŵyr Homes a Chyngor Sir Gâr wedi llwyddo i helpu un ar bymtheg o deuluoedd i ddechrau ar yr ysgol eiddo yn Sir Gaerfyrddin drwy fenter perchnogaeth cartrefi cost isel.

http://www.abayoflife.com/en/news/carmarthenshire-families-helped-onto-property-ladder/

Oes newydd mewn Addysg Bellach wrth greu Coleg Bro Gŵyr, Abertawe

Ar ddydd Gwener 20 Awst 2010 gwelwyd creu Coleg Bro Gŵyr, Abertawe a ffurfiwyd pan unwyd Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe. Coleg Bro Gŵyr, Abertawe yw'r sefydliad AU mwyaf ond un yng Nghymru, gydag oddeutu 1,100 o staff ac 17,000 o fyfyrwyr.
http://www.abayoflife.com/en/news/a-new-era-in-further-education-as-gower-college-swansea-is-created/

Prifysgol Abertawe yn dathlu hwb ymchwil gwerth £3.6 miliwn

Bydd Prifysgol Abertawe'n cael cynnydd o ychydig dros £3.6 miliwn at eu cronfa ymchwil graidd yn ystod 2010, sef y cynnydd cyllidol mwyaf mewn unrhyw brifysgol yng Nghymru.
http://www.abayoflife.com/en/news/university-celebrates-36m-research-boost/

Prifysgol Fetropolitan Abertawe ar y brig yng Nghymru ar gyfer busnesau graddedig

Mae ffigurau diweddaraf yn dangos bod Prifysgol Fetropolitan Abertawe'n cynhyrchu mwy o fusnesau cychwynnol graddedig llwyddiannus nag unrhyw sefydliad addysg uwch arall yng Nghymru. Dechreuodd dau ddeg chwech y cant o holl fusnesau cychwynnol graddedig Cymru eu bywyd ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe.

http://www.abayoflife.com/en/news/swansea-met-top-in-wales-for-graduate-businesses/

Y Datblygiadau Diweddaraf

Arwyddo contract ar gyfer gorsaf drenau Abertawe

Mae'r gwaith o uwchraddio gorsaf drenau Abertawe i ddechrau yn dilyn dyfarnu'r contract cyntaf. Bydd Strategic Team Group (STG) yn adeiladu ardal gyntedd ehangach ac yn adnewyddu wyneb yr orsaf, ychwanegu mynedfa ac ailwampio canopïau'r platfformau.

http://www.abayoflife.com/en/news/contract-signed-for-swansea-rail-station/

Cynlluniau gwesty'n rhoi hwb ychwanegol i ailwampio porth

Cyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer gwella Gwesty'r Grand ac ehangu i gynnwys sawl eiddo cyfagos i greu 15 ystafell ychwanegol. Y gobaith yw y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni o fewn tri mis.

http://www.abayoflife.com/en/news/hotel-plans-are-extra-boost-for-gateway-revamp/

Cynlluniau i drawsnewid Canolfan Dylan Thomas Abertawe yn ganolfan ddiwylliannol

Bydd Cyngor Abertawe yn uno â Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe mewn Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth ar gyfer trawsnewid Canolfan Dylan Thomas yn ffocws yr unfed ganrif ar hugain ar gyfer diwylliant, diwydiannau creadigol, addysg a menter.
http://www.abayoflife.com/en/news/plans-to-transform-swanseas-dylan-thomas-centre-into-a-cultural-hub/

Hwb i Barc Adwerthu yn Abertawe

Bydd Parc Manwerthu'r Phoenix yn Abertawe yn cael maes parcio newydd ei wedd, ffordd fynediad newydd oddi ar Fendrod Way a changen o'r archfarchnad B&M, sydd eisoes wedi cymryd 18,900 troedfedd sgwâr o le ar y safle, gyda phymtheg mlynedd o brydles, o dan ei enw B&M Bargains.

http://www.abayoflife.com/en/news/retail-park-boost-for-swansea/

Felin-foel i gael canolfan chwaraeon newydd gwerth £900 miliwn

Mae maes hamdden Felin-foel i gael canolfan chwaraeon newydd gyda chyfleusterau ar gyfer timau criced, rygbi a phêl-droed. Yn ogystal, bydd yr adeilad yn gartref i ystafelloedd hyfforddi a lle ar gyfer gweithgareddau iechyd a ffitrwydd, ynghyd â chyfleusterau ac achlysuron cynadledda. Disgwylir y bydd y gwaith ar y ganolfan wedi ei gwblhau ym mis Mai'r flwyddyn nesaf.

http://www.abayoflife.com/en/news/felinfoel-to-have-900k-new-sports-centre/

Cyllid cyswllt teithio i Gaerfyrddin

Bydd Sir Gaerfyrddin yn derbyn £500 mil ar gyfer prosiectau teithio cynaliadwy sy'n cynnwys peilot bws, rheilffordd, seiclo, cerdded, parcio a rhannu a thanwydd ceir cronfa yng Nghaerfyrddin. Bydd y prosiectau wedi eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2011.

http://www.abayoflife.com/en/news/travel-link-funding-for-carmarthen/

Newyddion cyffrous o bob cwr o'r rhanbarth!

Cerys Matthews yn ymuno â phanel beirniaid

Mae Cerys Matthews i ymuno â'r panel o feirniaid Gwobr Sony Reader ar gyfer Awduron heb Gyhoeddi, rhan o Wobr Dylan Thomas. Mae wedi ei hanelu at awduron nofelau Prydeinig dan 30 oed, ac fe gyhoeddir yr enillydd yn Seremoni Gwobrau Dylan Thomas ar 1 Rhagfyr.

http://www.abayoflife.com/en/news/cerys-matthews-joins-prize-judges/

Minnie Driver yn ffilmio Hunky Dory yn Abertawe

Mae'r seren ffilmiau Hollywood, Minnie Driver, sydd â gwreiddiau teuluol yn Abertawe, yn y ddinas ar hyn o bryd yn gweithio ar ffilm newydd, Hunky Dory. Lleolwyd y ffilm yn Abertawe yn ystod haf 1976 – yr haf poethaf erioed yn y DU.

http://www.abayoflife.com/en/news/minnie-driver-is-hunky-dory-in-swansea/

Y Wave a Sain Tawe yn lansio 'Gwobrau Diwylliant a Ffordd o Fyw'…

Cynhelir noson wobrwyo Diwylliant a Ffordd o Fyw'r Wave a Sain Tawe yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar ddydd Iau 30 Medi a bydd yn dathlu diwylliant, treftadaeth a ffordd o fyw Bae Abertawe.

http://www.abayoflife.com/en/news/countdown-is-on-for-culture-and-lifestyle-awards/

…ac yn dringo i frig y siartiau radio

Mae 96.4FM y Wave a'i chwaer-orsaf Sain Tawe yn dathlu ar ôl cyrraedd y brig unwaith eto yn Siartiau Radio De Cymru yn ôl canlyniadau diweddaraf RAJAR ar gyfer Q2 2010 a gyhoeddwyd ym mis Awst.

http://www.abayoflife.com/en/news/the-wave-and-swansea-sound-still-top-of-the-radio-charts/

Bwyty'r Penthouse ar agor unwaith yn rhagor erbyn mis Hydref

Mae cwmni SA Brain and Company Ltd mewn trafodaethau manwl gyda landlordiaid a datblygwyr y Meridian Tower – Earthquake, i gymryd trosodd y Penthouse Restaurant.

http://www.abayoflife.com/en/news/penthouse-restaurant-open-again-by-october/

Parc Coedwig Afan yn y deg uchaf ar gyfer gwyliau beicio yn y DU!

Mae Parc Coedwig Afan wedi ymddangos fel un o'r deg gwyliau beicio gorau yn rhifyn mis Awst o gylchgrawn Mountain Biking UK.

http://www.abayoflife.com/en/news/afan-forest-park-top-10-for-uk-biking-holidays/

Mynachod ysbrydoledig Margam yn llwyddiant ar deledu'r UD

Gwyliodd dros filiwn o bobl yr UD raglen ddogfennol ar deledu'r UD sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau ysbrydoledig yn Abaty Margam a'r castell cyfagos. Dywedodd adroddiad Ghost Hunters International eu bod yn "llawn o ysbrydion".

http://www.abayoflife.com/en/news/margams-ghostly-monks-are-a-hit-on-us-television/

Beicwyr yn derbyn her Constitution Hill Abertawe yn ystod Gorchest Prydain

Mae ras feicio fwyaf y DU yn dod i Abertawe ar ddydd Llun 13 Abertawe mewn cam sy'n cynnwys ras i fyny Constitution Hill! Gall gwylwyr fwynhau'r gweithgaredd o unrhyw fan ar y cwrs ond rhybuddir ymwelwyr i ganolfan y ddinas y bydd rhai strydoedd ar gau.
http://www.abayoflife.com/en/news/cyclists-take-on-swanseas-infamous-constitution-hill-in-the-tour-of-britain/

Ras 10 cilomedr Admiral, Bae Abertawe, yn rhan o Run Britain Grand Prix 2011

Cyhoeddodd Run Britain y bydd ras 10 cilomedr Admiral Bae Abertawe yn nodweddu fel un o ddim ond pum ras yng nghyfres agoriadol Run Britain Grand Prix yn 2011. Dathlodd y ras ei phen-blwydd yn 30 oed yn 2010, ac eleni mae'n cael ei chynnal ar ddydd Sul 26 Medi.
http://www.abayoflife.com/en/news/admiral-10k-to-feature-in-run-britain/

Delwedd Gŵyr i ymddangos ar basport newydd y DU

Datgelwyd bod Penrhyn Gŵyr yn un o'r delweddau cenedlaethol eiconig sydd i ymddangos ar y pasport 10 mlynedd newydd sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2010.

http://www.abayoflife.com/en/news/new-look-passports-feature-gower-peninsula/

Arddangos Bae Abertawe i deithwyr sy'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd

Mae teithwyr sy'n cyrraedd Maes Awyr Caerdydd yn cael eu hannog i 'Ddarganfod' a 'Phrofi' atyniadau a gweithgareddau Bae Abertawe ar ddau banel goleuedig anferth, sy'n mesur 4m x 1½m yr un, wedi eu lleoli yn yr ardal casglu bagiau.

http://www.abayoflife.com/en/news/new-images-to-greet-visitors-to-cardiff-airport/

Cyswllt

Ruth Dockerty
Swyddog Gweithredol Cyfathrebu a Marchnata
Swansea Bay Futures Cyf,
Llys Tawe,
Kings Road,
Abertawe
SA1 8PG

Ffôn: 01792 634662
E-bost: Ruth Dockerty@Abertawe.gov.uk
Gwefan: http://www.abayoflife.com/